

Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

Mehefin 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddEconomi](https://twitter.com/SeneddEconomi)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

Mehefin 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Paul Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Hefin David AS
Llafur Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	7
1. Cyflwyniad.....	9
2. Cefndir y Rheoliadau	12
Roedd adolygiad swyddogol CNC yn argymhell cwmpas o 8% ar gyfer Parthau Perygl Nitradau.....	13
Dull rheoleiddio mwy cynhwysfawr	13
Y broses o gyflwyno'r Rheoliadau	16
Safbwyntiau gwahanol iawn ynghylch y Rheoliadau.....	17
3. Data ar ansawdd dŵr ac achosion llygredd	19
4. Dull Cymru gyfan.....	24
Effaith ar yr ucheldir	26
5. Effaith ariannol a chyllid.....	29
Yr effaith ar ffermwyr yn sgil y cynnydd mewn rheoleiddio a chostau ariannol	29
Cyllid.....	29
6. Mesurau trosiannol	33
Cyfnodau trosiannol	33
Gwelliannau i seilwaith	34
7. Rhoi adnoddau i CNC i fonitro a gorfodi'r rheoliadau	35
Dull wedi'i dargedu.....	36
8. Ymgorffori'r Rheoliadau mewn Safonau Gofynnol Cenedlaethol...39	
9. Dulliau amgen.....	41
A fydd y rheoliadau'n arwain at "ffermio ar sail calendr"?	43
Mae rheoliad 45 o'r rheoliadau yn caniatáu ar gyfer mesurau amgen.....	44
A yw gwelliannau i'r rheoliadau'n bosibl?	44

Y defnydd o dechnoleg	45
Diogelu'r rheoliadau at y dyfodol.....	46
10. Adolygu'r rheoliadau	47
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	48
Atodiad B: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig:.....	49
Gwybodaeth Ychwanegol.....	50

Rhagair y Cadeirydd

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn ddarn dadleuol o ddeddfwriaeth. Nod y rheoliadau yw gwella ansawdd dŵr a diogelu natur rhag llygredd amaethyddol, fodd bynnag mae llawer o ffermwyr yn eu hystyried yn feichus iawn ac yn pryderu y bydd cydymffurfio â'r rheoliadau'n afresymol o ddrud.

Y llynedd, penderfynwyd yn unfrydol yn y Cyfarfod Llawn y dylai'r Pwyllgor adolygu'r Rheoliadau hyn ar fyrder. Fodd bynnag, bu oedi gyda'n hadroddiad oherwydd adolygiad barnwrol o gyfreithlondeb y rheoliadau, a wrthodwyd gan yr Uchel Lys.

Ni fu'r adolygiad hwn erioed yn ymwneud â chyfreithlondeb y Rheoliadau. Mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar gynnwys y polisi a ph'un a fydd y Rheoliadau'n cyflawni'r amcan a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. I'r perwyl hwnnw mae adroddiad y Pwyllgor hwn yn gwneud rhai argymhellion polisi arwyddocaol.

Yr adolygiad hwn oedd un o'r darnau cyntaf o waith a wnaed gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'n hymgyngoriad, ac a ddarparodd dystiolaeth lafar ar gyfres o Reoliadau sydd wedi arwain at gryn wahaniaeth barn ac wedi codi llawer o bryderon. Mae'r Pwyllgor wedi ceisio bod yn gwbl deg a chytbwys wrth ystyried y dystiolaeth a roddwyd ger ein bron, gan wneud argymhellion adeiladol ar oblygiadau polisi arwyddocaol y dull rheoleiddio newydd hwn.

Fel Cadeirydd roedd yn bwysig i mi ein bod yn cymryd cyfarwyddyd y Senedd i adolygu'r Rheoliadau ar fyrder o ddifrif, ac mae'r Pwyllgor wedi rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwaith hwn. Yn anffodus, roedd yr oedi a achoswyd gan yr adolygiad barnwrol y tu hwnt i reolaeth y Pwyllgor. Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, am fynychu'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl i ddyfarniad y llys gael ei gyflwyno.

Rydym nawr yn gwahodd y Gweinidog i roi ystyriaeth ofalus i'n canfyddiadau. Mae hyn yn cynnwys symud yn gyflym i adolygu effeithiolrwydd mesurau technolegol amgen; bod yn gwbl dryloyw ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael i ffermwyr; rhoi sicrwydd bod adnoddau a chanllawiau digonol ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru fonitro a gorfodi'r rheoliadau; a lleihau

unrhyw ganlyniadau anfwriadol i ffermwyr, yn enwedig ffermwyr tenant a'r rhai yr effeithir arnynt gan achosion o TB buchol.

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn adolygu effeithiolrwydd y Rheoliadau hyn cyn gynted â phosibl, ac ni ddylai'r amserlen pedair blynedd ar gyfer adolygiad rheoleiddiol ffurfiol fod yn rhwystri ddechrau gweithio ar unwaith ar welliannau. Gwnaeth is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol nifer sylweddol o argymhellion i Lywodraeth Cymru ac eraill, ac mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael esboniad llawnach o sut y mae'r holl waith hwnnw wedi cael ei ystyried.

Edrychwn ymlaen at weld ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion, a disgwyliwn barhau i ddychwelyd at y materion a godwyd yn yr adolygiad yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Ni fydd y gymuned ffermio yng Nghymru, y sector amgylcheddol, ein pysgotwyr a'n genweirwyr, a phawb sy'n gwarchod ein tiroedd a'n dyfrffyrdd yng Nghymru, yn disgwyl dim llai.



Paul Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ailgyflwyno'r rhanddirymiad a oedd yn caniatáu i ffermydd glaswelltir cymwys daenu hyd at 250 kg/ha o nitrogen. Tudalen 16

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gymorth yn union sydd wedi bod ar gael i ffermwyr ac a fydd ar gael iddynt er mwyn bodloni gofynion ansawdd dŵr a gofynion amrywiol eraill Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 - yn gymorth ariannol ac yn wasanaethau cynghori. Dylai hyn gynnwys y symiau, y dulliau darparu cyllid a'r amserlenni, gan nodi'r adnoddau a roddir i Cyswllt Ffermio ac a ddarperir ganddo. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ymchwil, y dystiolaeth a'r cyfrifiadau a wnaed i bennu'r lefelau cymorth sydd eu hangen ac a ddarperir. Tudalen 31

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog amlinellu i'r Pwyllgor ei hystyriaethau o'r effaith y gallai'r Rheoliadau hyn ei chael ar y system gynllunio, a sut y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o waith gwella seilwaith sy'n ymwneud â'r rheoliadau hyn, gan gynnwys cyfrannu at ôl-groniad o geisiadau cynllunio neu fwy o densiwn cymunedol, yn cael eu lliniaru..... Tudalen 34

Argymhelliad 4. Dylai Gweinidogion Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd ar ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru gytuno ar y cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer yr adnoddau i orfodi'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (a ddisgwylir erbyn mis Hydref 2022). Dylai'r llythyr nodi'r pwyntiau allweddol yn y cytundeb lefel gwasanaeth, gan gynnwys lefelau adnoddau; yr hyn y disgwylir i CNC ei wneud; pa ganlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl; a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i osod y lefelau yn y cytundeb. Tudalen 36

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n amlinellu sut y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fynd ati i orfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021..... Tudalen 38

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth fwy penodol i'r Pwyllgor am sut y mae'n ystyried anghenion ffermwyr tenant a ffermydd yr effeithir arnynt gan TB buchol fel rhan o gyfundrefn orfodi CNC, a pha fecanweithiau a ddefnyddir i fonitro ac ymateb i bryderon a godir yn is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru neu drwy ddulliau eraill. Dylai'r Gweinidog roi diweddariadau blynyddol pellach i'r Pwyllgor ar y materion hyn, y tu allan i gwmpas amserlen yr adolygiad rheoleiddiol..... Tudalen 40

Argymhelliad 7. Er budd ewyllys da a thryloywder, dylai Llywodraeth Cymru gydgysylltu â'r cyrff perthnasol er mwyn coladu a chyhoeddi diweddariad ar statws y 45 o argymhellion yn adroddiad is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Dylai hefyd nodi, lle y bo'n briodol, sut y mae'r argymhellion hynny wedi'u hystyried yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021..... Tudalen 42

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu unrhyw gynigion amgen addas sy'n defnyddio technoleg yn hytrach na chyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith, neu 'ffermio ar sail calendr'. Tudalen 46

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei hystyriaeth o gynigion amgen erbyn dechrau 2023 a diweddariadau blynyddol rheolaidd pellach ar ystyried mesurau amgen, cyn yr adolygiad rheoleiddiol ffurfiol..... Tudalen 46

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 cyn gynted ag y bo modd, a sicrhau bod y gwaith paratoi i wella'r Rheoliadau, gan gynnwys cyflwyno mesurau amgen, yn dechrau mewn da bryd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwaith Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wrth adolygu'r Rheoliadau..... Tudalen 47

1. Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2021 pleidleisiodd y Senedd yn unfrydol i'r 'pwyllgor cyfrifol' adolygu ar fyrder Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ('y Rheoliadau') a chyflwyno argymhellion i'r Senedd. Cynhaliwyd yr adolygiad gan y Pwyllgor hwn.

1. Daeth y Rheoliadau i rym ym mis Ebrill 2021, ac maent yn golygu ei bod yn rhaid i ffermwyr ledled Cymru gydymffurfio â rheolau newydd ar ddodi a storio maethynnau ar eu tir. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010, a roddodd Gyfarwydddeb Nitradau'r UE (91/676/EEC) ar waith ("y Gyfarwydddeb Nitradau"), gan ddynodi 2.4% o dir Cymru yn barthau perygl nitradau. Fodd bynnag, mae gan y Rheoliadau newydd hefyd nodau llawer ehangach i fynd i'r afael â holl achosion llygredd amaethyddol a helpu i gyflawni rhwymedigaethau rhwngwladol a domestig.

2. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog i'r Pwyllgor ym mis Mai 2022 yn egluro bod y Rheoliadau'n cefnogi ymrwymiad parhaus Cymru i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Phrotocol Gothenburg. Byddant hefyd yn cyfrannu at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a nodau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:

"Er mai prif nod y Rheoliadau CoAP yw lleihau llygredd dŵr, mae'r mesurau wedi'u cynllunio i osgoi cyfnewid llygredd ac i atal neu leihau colledion cynyddol maetholion i'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys nitradau, ffosfforws, nwyon tŷ gwydr ac amonia. Drwy fabwysiadu'r dull hwn, mae Rheoliadau CoAP yn cyflawni yn erbyn ystod eang o gyfrifoldebau Cymru ac yn darparu ymateb cyfannol i heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu amaethyddol."

3. Dywedodd y Gweinidog mai nod y dull rheoleiddiol newydd yw mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig ag achosion tor-cyfraith ôl-weithredol yr UE a gofynion tegwch Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU. Dywedodd hefyd fod y Rheoliadau wedi'u cynllunio i

sicrhau mynediad i farchnadoedd Ewropeaidd a byd-eang drwy alluogi sector amaethyddol Cymru i ddangos bod bwyd yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn unol â safonau sylfaenol cydnabyddedig.

4. Ychydig iawn o faterion sydd wedi rhannu ffermwyr ac amgylcheddwyr i'r fath raddau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rheolau newydd ar lygredd amaethyddol wedi achosi dicter yng nghymunedau ffermio Cymru, gyda ffermwyr yn eu galw'n llym a chosbol, ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) yn codi her gyfreithiol. Mae amgylcheddwyr yn dadlau ei bod yn hen bryd cyflwyno'r mesurau hyn ac y byddant yn atal difrod amgylcheddol trychinebus. Cyrhaeddodd y ddadl ei hanterth pan bleidleisiodd y Senedd yn unfrydol, yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Rheoliadau ar **9 Mehefin 2021**, dros gynnal adolygiad brys gan un o bwyllgorau'r Senedd.

5. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, gan ddechrau gydag **ymgyngoriad** rhwng 5 Awst a 10 Medi 2021 a oedd yn gofyn am farn ar:

- yr agweddau cadarnhaol a negyddol ar y dull Cymru gyfan cyfredol;
- y broses ar gyfer datblygu'r dull cyfredol;
- y dewisiadau amgen i'r dull cyfredol; a
- pe bai dull Cymru gyfan yn cael ei gadw, sut y gellid gwella'r dull cyfredol.

6. Ym mis Gorffennaf 2021 cychwynnodd NFU Cymru achos yn yr Uchel Lys i gael caniatâd i herio'r Rheoliadau. Caniatwyd ei gais i gynnal adolygiad barnwrol o benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Rheoliadau gan yr Uchel Lys, a chynhaliwyd gwrandawriad ar 26 Hydref, 27 Hydref a 9 Tachwedd 2021.

7. Tra bod trafodion yr adolygiad barnwrol yn mynd rhagddynt, parhaodd y Pwyllgor i wneud ei waith drwy gasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion polisi yn unig. Yn ystod y cyfnod hwn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Undeb Amaethwyr Cymru, NFU Cymru, a chynrychiolwyr Cyswllt Amgylchedd Cymru - Ymddiriedolaethau Natur Cymru ac Afonydd Cymru. **Traddododd** y llys ddyfarniad ar 23 Mawrth 2022, yn gwrthod her adolygiad barnwrol NFU Cymru i benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Rheoliadau hyn.

8. Yn wreiddiol, roedd y Pwyllgor i fod i glywed tystiolaeth lafar gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (y Gweinidog) ar 9 Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, gofynnodd y Gweinidog i hyn gael ei ohirio tan ar ôl i'r llys roi ei ddyfarniad. Ar ôl i'r achos gael

ei wrthod, rhoddodd y Gweinidog dystiolaeth ar 11 Mai 2022, a darparodd ragor o dystiolaeth ysgrifenedig cyn y sesiwn hon. Mae'r holl dystiolaeth ysgrifenedig a'r wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd wedi'u rhestru yn Atodiad B: **Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig**:. Ceir rhestr o'r holl sesiynau dystiolaeth lafar yn Atodiad A: **Rhestr o sesiynau dystiolaeth lafar**.

2. Cefndir y Rheoliadau

9. Yn ogystal ag ymdrin â llygredd amaethyddol a achosir gan nitradau, mae'r Rheoliadau hefyd yn cwmpasu llygredd a achosir gan ffosfforws, nwyon tŷ gwydr ac amonia, yn ogystal â mesurau eraill sydd â'r nod o fynd i'r afael â llygredd a diogelu'r amgylchedd. Y newid yn y ffordd yr eir i'r afael â llygredd nitradau gan y Rheoliadau hyn oedd prif ffocws yr adolygiad, a arweiniwyd gan y corff o dystiolaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor.

10. Gall nitradau lygru dŵr a lladd bywyd gwyllt. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys mesurau statudol a gynlluniwyd i wella ansawdd dŵr drwy reoli nitradau. Mae ffermwyr yn aml yn defnyddio gwartaith, tail a slyri, sy'n cynnwys nitradau, i ychwanegu nitrogen at y pridd. Mae hyn yn gwella datblygiad planhigion ac yn cynyddu ansawdd a phwysau'r cnwd. Ond, gall gormodedd o nitradau achosi difrod amgylcheddol sylweddol a pharhaus.

11. Daw'r rhan fwyaf o lygredd nitradau o ffynonellau amaethyddol gwasgaredig (llawer o ffynonellau unigol gyda'i gilydd), drwy ddŵr ffo o'r tir. Gall nitradau ychwanegol gyrraedd cyrff dŵr wyneb, fel llynnoedd ac afonydd, ac achosi 'ewtroffigedd'. Ystyr hyn yw pan fydd anghydbwysedd yn yr ecosystem yn niweidio creaduriaid dyfrol. Gall llygredd nitradau hefyd effeithio ar ffynonellau dŵr yfed os bydd yn cyrraedd dŵr daear.

12. Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno "llinell sylfaen reoliadol" ar gyfer Cymru gyfan i reoli llygredd amaethyddol, gan gynnwys:

- cynlluniau rheoli maethynnau a chadw cofnodion. Mae hyn yn cynnwys gofyniad am gynllun ysgrifenedig ar gyfer unrhyw ddefnydd o wrtaith nitrogen, sy'n cynnwys y cyflenwad nitrogen yn y pridd a gofyniad y cnwd;
- rheoli pryd, ble a sut y mae gwartaith yn cael ei daenu - er enghraifft atal taenu slyri rhwng mis Hydref a mis Chwefror;
- defnyddio'r swm cywir o wrtaith, yn y ffordd gywir, i fodloni gofynion y cnwd. Mae'r rheoliadau'n gosod rheolaethau ar gyfer taenu nitradau o ddeunyddiau gwrteithio organig ac anorganig ac yn gosod terfynau ar gyfer cyfanswm y llwythi nitrogen ar lefel fferm a chae; a
- safonau ar gyfer storio tail a silwair. Mae hyn yn cynnwys mynnu bod elifiant slyri a silwair yn cael ei atal rhag lledaenu a nodi'r capasiti a'r gofynion adeiladu ar gyfer storio tail organig a silwair.

13. Mae'r Rheoliadau'n darparu mesurau trosiannol ar gyfer daliadau nad oeddent yn flaenorol mewn Parth Perygl Nitradau, y mae bellach yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r darpariaethau a'r gofynion perthnasol. Bydd y gofynion yn cael eu cyflwyno'n raddol dros dair blynedd tan 1 Awst 2024. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ac wedi sicrhau bod cyllid ar gael, gan gynnwys £11.5 miliwn ar gyfer seilwaith rheoli maethynnau. Gall ffermwyr gael cyngor drwy Cyswllt Ffermio.

14. Mae'r mesurau a nodir yn y Rheoliadau i fynd i'r afael â llygredd nitradau yn debyg i rai'r Parthau Perygl Nitradau sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb Nitradau. Mae undebau'r ffermwyr wedi dadlau bod y mesurau hyn wedi'u torri a'u gludo o reoliadau Parthau Perygl Nitradau yr UE¹ a'u bod bellach yn cael eu cymhwyso fel Parth Perygl Nitradau Cymru gyfan. Dywed CNC y byddai cydymffurfio â'r Rheoliadau yn arwain at leihad mewn amrywiaeth o lygryddion, gan gynnwys nitradau, ffosfforws, amonia ac ocsid nitraidd sy'n effeithio ar ansawdd dŵr, ansawdd aer, newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

Roedd adolygiad swyddogol CNC yn argymhell cwmpas o 8% ar gyfer Parthau Perygl Nitradau.

15. Mae'r Gyfarwyddeb Nitradau yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau nodi dyfroedd sydd wedi cael eu llygru, neu a allai gael eu llygru, gan nitradau i sicrhau dynodiad Parth Perygl Nitradau priodol (bob pedair blynedd), ac i gynnal gwaith monitro ac adolygiadau. Roedd CNC yn gyfrifol am adolygu dynodiadau Parth Perygl Nitradau Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf yn 2015-16 gan ddefnyddio data hyd at ac yn cynnwys 2014. Roedd yn argymhell dynodi saith ardal newydd, a fyddai wedi cynyddu cyfanswm yr arwynebedd a ddynodwyd yn Barth Perygl Nitradau o 2.4 i 8% o dir Cymru. Yna ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ddau opsiwn:

- parhau â'r dull o ddynodi Parthau Perygl Nitradau, gan arwain at fwy o fesurau a chynyddu'r arwynebedd tir i 8%; neu
- dynodi Cymru gyfan yn Barth Perygl Nitradau.

Dull rheoleiddio mwy cynhwysfawr

16. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog i'r Pwyllgor ar 11 Mai yn nodi'r sail resymegol dros y dull rheoleiddio a ddefnyddiwyd yn y pen draw. O'r ddau fath o lygredd dŵr - tarddle penodol o lygredd a llygredd gwasgaredig amaethyddol - dywedodd mai'r olaf oedd "*un o'r prif resymau pam mae cyrff dŵr yng Nghymru yn methu â chael statws da yn unol â*

¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Amaethwyr Cymru

rhwymedigaethau sy'n deillio o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD)". Dywedodd hefyd fod asesiadau CNC o 2010-2015 wedi canfod bod "arferion rheoli tir amaethyddol gwael a seilwaith" yn cyfrannu 37% o'r problemau llygredd gwasgaredig a nodwyd, ac eglurodd:

"Er bod y Rheoliadau CoAP yn cyflawni rhwymedigaethau sy'n deillio o'r Gyfarwyddeb Nitradau, maent yn symud oddi wrth ddull y Gyfarwyddeb Nitradau ac yn ystyried rhwymedigaethau ac amcanion ehangach. Nid ydynt yn reoliadau Parth Perygl Nitradau (PPN). Nid yw dull gweithredu ar wahân ar gyfer y Gyfarwyddeb Nitradau yn diogelu cyrff dŵr ledled Cymru rhag methu â chyrraedd safonau diogelwch ac ecolegol eraill, lleihau llygredd atmosfferig na mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i liniaru.

Gall newid ecolegol ddigwydd o dan y trothwyon a sefydlwyd gan y Gyfarwyddeb Nitradau, yn enwedig ar y cyd â llygryddion amaethyddol eraill, gan gynnwys ffosfforws. Mae llygredd ffosfforws yn ein hafonydd yn cael effaith andwyol ar ddatblygiadau tai ac economaidd, gan gynnwys datblygiadau amaethyddol, mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd."

17. Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at asesiad CNC bod achosion o dorri amodau ffosfforws yn gyffredin yn y naw afon ACA yng Nghymru, gan effeithio ar "*rai o fywyd gwyllt mwyaf arbennig Cymru*". Mae hyn yn cynnwys asesiadau o Afon Gwy sy'n dangos bod "*amaethyddiaeth yn cyfrannu tua 66% o'r llygredd ffosfforaidd,*" gan ychwanegu nad yw'r data a ddefnyddiwyd yn ystyried y cynnydd diweddar sylweddol yn niferoedd y dofednod yn y dalgylch. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai'r rheswm dros y terfyn o 170kg fesul hectar ar gyfer taenu nitrogen gan ffermwyr Cymru, yn hytrach na'r terfyn uwch o 250kg yn y rheoliadau drafft cyntaf ac sy'n berthnasol yng ngwledydd eraill y DU, oedd er mwyn mynd i'r afael â llygredd ffosfforws yng Nghymru.²

18. Dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd fod "*dros 90% o allyriadau amonia yng Nghymru yn cael eu hachosi gan amaethyddiaeth, sy'n achosi dros 87% o gynefinoedd sensitif Cymru sy'n mynd dros drothwyon statudol ar gyfer asideiddio ac ewtroffigedd.*" Tynnodd sylw at effeithiau negyddol deunydd gronynnol mân ar iechyd dynol, a'r angen i leihau allyriadau amonia er mwyn "*diogelu iechyd y cyhoedd a'n nodweddion amgylcheddol pwysicaf, a chyflawni ymrwymadau statudol i leihau allyriadau,*" gan nodi hefyd bod y rhain yn "lygryddion trawsffiniol" y mae gan Gymru rhwymedigaethau i'w hatal. Yn y papur tystiolaeth dywedwyd:

² Paragraff 44, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

*"Yn ogystal â darparu safonau sylfaenol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol sy'n effeithio ar gyrff dŵr, cydnabyddir y bydd rheoliadau sy'n gymwys ledled Cymru yn helpu i gyflawni amcanion allweddol eraill ar fioamrywiaeth, ansawdd aer, sy'n gysylltiedig ag amonia a deunydd gronynnol, a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr."*³

19. Cododd y ddau undeb ffermio bryderon ynghylch cael gwared ar y rhanddirymiad a oedd yn caniatáu i nitrogen ychwanegol gael ei daenu ar ffermydd glaswelltir cymwys.⁴ Rhybuddiodd NFU Cymru bod y penderfyniad i beidio â chynnwys y rhanddirymiad i'r terfyn N 170 kg/ha ar gyfer ffermydd sydd â thros 80 y cant o laswelltir yn gyfyngiad stocio de facto sy'n gofyn am ddadstocio ar lawer o ffermydd Cymru, gan effeithio ar hyfywedd ffermydd, màs critigol o fewn y gadwyn gyflenwi a chyflogaeth⁵ ac y gallai'r gyfradd is arwain at 'allforio' cynhyrchiant i wledydd â safonau is.

20. Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor canmolodd Dŵr Cymru'r Llywodraeth ar ei bwriad clir i reoli'n well y gweithgareddau sy'n llygru ac yn effeithio ar ein hafonydd, a darparu amgylchedd mwy cynaliadwy a gwydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac nad oes dim amheuaeth bod angen gweithredu ar fyrder i reoli'n well y maethynnau sy'n cyrraedd ein hafonydd a'n dyfroedd arfordirol. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon ganddo ynghylch y Rheoliadau.⁶

21. Ar hyn o bryd mae Dŵr Cymru yn ailgylchu tua 148,000 tonnall o fiosolidau ar dir amaethyddol o amgylch ei bedwar safle Treulio Anaerobig Datblygedig. Mae'n pryderu bod y cyfyngiadau is newydd ar gyfer taenu gwrtaith yn debygol o leihau'r capasiti i daenu biosolidau yn y banc o dir amaethyddol a ddefnyddir gan Dŵr Cymru. Rhagwelir biosolidau ychwanegol o rhwng 30,700 a 115,600 tonnall y flwyddyn a cholled o 13% i 60% yn y banc tir. Canlyniad hyn fyddai gorfodi Dŵr Cymru i deithio ymhellach i ddod o hyd i dir lle y gall ailgylchu ei Fioddeunydd neu bydd angen iddo fuddsoddi mewn systemau ailgylchu newydd a fydd yn ei dro yn arwain at gost uwch i gwsmeriaid.⁷

22. Mae'r Aelodau'n pryderu y bydd dileu'r rhanddirymiad ar gyfer glaswelltir cymwys yn rhoi ffermwyr Cymru o dan anfantais gystadleuol. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y penderfyniad i hepgor y rhanddirymiad.

³ <https://busnes.senedd.cymru/documents/s124835/Tystiolaeth%20gan%20Llywodraeth%20Cymru.pdf>

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ailgyflwyno'r rhanddirymiad a oedd yn caniatáu i ffermydd glaswelltir cymwys daenu hyd at 250 kg/ha o nitrogen.

Y broses o gyflwyno'r Rheoliadau

23. Ym mis Rhagfyr 2017 dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu cyflwyno dull Cymru gyfan a chadarnhaodd hyn ym mis Tachwedd 2018. Bryd hynny byddai'r Rheoliadau wedi dod i rym ym mis Ionawr 2020. Ym mis Rhagfyr 2019 dywedodd y Gweinidog fod y diwydiant ffermio wedi argymhell dull amgen yn seiliedig ar hyblygrwydd ac ennill ymreolaeth a'i bod yn dymuno ymchwilio ymhellach i hyn. Ond ym mis Ebrill 2020 cyhoeddodd y Gweinidog reoliadau drafft ar gyfer dull Cymru gyfan, gan ddweud ei bod yn bwriadu cyflwyno'r rheoliadau ar ôl i'r argyfwng Covid ddod i ben. Ailadroddodd ym mis Mai 2020 na fyddai'n cyflwyno'r rheoliadau tra bod y pandemig yn mynd rhagddo. Er gwaethaf hyn, gosodwyd y Rheoliadau gerbron y Senedd ym mis Ionawr 2021 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2021. Trechwyd cynnig yr wrthblaid i ddirymu'r Rheoliadau yn y Senedd flaenorol (3 Mawrth 2021). Pan gafodd ei herio ynghylch amseriad cyflwyno'r Rheoliadau, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

*"Unfortunately, we're still in the pandemic, aren't we? So, I go back to what I was saying: we hadn't seen any decrease in the number of incidents. We're still having, on average, three per week, and that has continued into this year, unfortunately. I got to a position where, clearly, the pandemic was going in a way that none of us...envisaged. I talked to stakeholders, and the reason we introduced them when we did was because the number wasn't decreasing, but also we had that transitional period, and I felt that was enough time, working closely with the sector, to be able to bring these regulations forward. And if I can just reiterate one more time, Chair, that these regulations, when you look at them, are no more stringent than the current ones."*⁸

24. Nododd y Pwyllgor haniad cryf y Gweinidog nad yw'r Rheoliadau newydd yn llymach na'r hyn a oedd ar waith yn flaenorol, gan gwestiynu bryd hynny beth oedd gwerth cyflwyno'r dull gorfodol newydd. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn awyddus i newid o ddull gwirfoddol o fynd i'r afael ag achosion o lygredd amaethyddol, ond nad oedd hynny'n gweithio, gan ein bod wedi gweld cynnydd. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

"Farmers have a statutory duty not to pollute, and we are going to have to watch very closely to see what improvements they do bring forward. That's why the review is there, because we need to make sure they work. But the

⁸ Paragraff 148, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

*most important thing is that people aren't complying, so we now want to make sure that people comply. And, as I say, the support is there and it is really important that we see a reduction, because it is harming the agricultural sector's reputation here in Wales. I don't want that, I wouldn't think you'd want that, and I don't think any farmer that I speak to wants that, and they absolutely see themselves as part of the solution to the climate emergency. This is their opportunity now to do it."*⁹

Safbwyntiau gwahanol iawn ynghylch y Rheoliadau

25. Croesawodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru y Rheoliadau, gan ddweud bod y diwydiant ffermio, ers llawer yn rhy hir, wedi dibynnu ar fesurau gwirfoddol nad ydynt wedi atal y troseddwyd gwaethaf ac y dylai'r rheoliadau newydd sicrhau chwarae teg i holl ffermwyr Cymru.¹⁰ Dywedodd Iolo Williams, cyflwynydd teledu a naturiaethwr, fod hyn yn newyddion gwych i afonydd Cymru a'i bod yn hen bryd i hyn ddigwydd.¹¹

26. Mae grwpiau genweirio hefyd yn cefnogi'r Rheoliadau. Mynegodd Gwarchod Eogiaid a Brithyll Cymru ryddhad bod rheoliadau i atal llygredd amaethyddol sy'n bla ar afonydd Cymru wedi'u cyflwyno o'r diwedd.

27. Ond disgrifiodd Glyn Roberts, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru, y Rheoliadau fel cam llym a oedd yn gwneud datganoli yn gyff gawd ac yn bradychu egwyddorion gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Dywedodd Llywydd NFU Cymru ar y pryd, John Davies, fod Parth Perygl Nitradau Cymru gyfan yn anwahaniaethol a chosbol a bod y cymorth sydd ar gael i ffermwyr er mwyn addasu i newidiadau mor llym yn druenus o annigonol. Ychwanegodd fod y Rheoliadau wedi cael eu torri a'u gludo'n ddiog o Gyfarwyddeb Nitradau yr UE sydd wedi cael ei thanseilio'n sylweddol.¹²

28. Mae undebau'r ffermwyr yn cefnogi cyflwyno fframwaith rheoleiddio ar y cyd â mesurau gwirfoddol i fynd i'r afael â llygredd, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithredu'r 45 o argymhellion gan is-grŵp ar lygredd amaethyddol a sefydlwyd o dan Fforwm Rheoli Tir Cymru CNC yn 2017, a arweiniwyd gan NFU Cymru ac a gafodd gyllid partneriaeth. Mae'r is-grŵp hwnnw'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CNC, y byd ffermio ac amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Roedd yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o achosion sylfaenol llygredd amaethyddol ac ystod o ddulliau a all

⁹ Paragraff 153, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

¹⁰ www.wales.org/news/brighter-future-welsh-rivers

¹¹ New Wales farming pollution rules 'compel industry to change', Newyddion y BBC ar-lein, 27 January 2021.

¹² www.fwi.co.uk/business/compliance/nvzs/farmers-betrayed-after-all-wales-nvz-vote-is-feated

ysgogi gwelliannau amgylcheddol. Cyflwynodd yr is-grŵp adroddiad i'r Gweinidog ar becyn integredig o fesurau ym mis Ebrill 2018, ond ni chyhoeddwyd unrhyw ymateb ffurfiol i'r adroddiad (gweler yr adran ddiweddarach yn dwyn y teitl 'Dulliau amgen').

29. Ysgogodd NFU Cymru adolygiad barnwrol o benderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r Rheoliadau. Dibynnwyd ar bedair sail ar gyfer yr her ond fe'u gwrthodwyd gan y Llys. Roedd y seiliau'n cynnwys honiad bod Gweinidogion Cymru wedi gweithredu'n afresymol ac yn anghyfreithlon drwy fethu ag ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, a'i bod wedi ystyried dystiolaeth amherthnasol cyn gwneud penderfyniad terfynol i gyflwyno'r Rheoliadau. Honnodd NFU Cymru hefyd fod Gweinidogion Cymru wedi creu disgwyliad cyfreithlon y byddai'r Rheoliadau yn cynnwys esemptiad ar gyfer ffermydd a chanddynt 80% neu fwy o laswelltir, y cyfeirir ato fel y "rhanddirymiad". Fodd bynnag, diystyrwyd y sail hon hefyd.

3. Data ar ansawdd dŵr ac achosion llygredd

30. Mae dwy ochr y ddadl yn defnyddio data ar ansawdd dŵr i gefnogi eu safbwyntiau. Mynegodd y tystion wahaniaeth barn amlwg ynghylch cywirdeb ac ansawdd y data sydd ar gael, ac arwyddocâd gwahanol ffynonellau llygredd. Darparodd Llywodraeth Cymru ddata ar y gwahanol ffynonellau, gan ddweud bod y Rheoliadau yn rhan o “gyfres o fesurau” i leihau effaith gyffredinol llygredd ar afonydd Cymru.

31. Pwysleisiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru effaith llygredd gwasgaredig fel rheswm pam nad yw nifer o gyrff dŵr Cymru yn llwyddo i gyrraedd statws ecolegol da o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Cyfeiriodd at Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 sy’n dweud:

- bod 66% o gyrff dŵr afonydd yn methu â chyflawni statws ecolegol da o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
- bod niferoedd y rhywogaethau allweddol wedi lleihau ac eraill mewn perygl o ddiflannu; ac
- un o’r prif achosion yw llygredd gwasgaredig amaethyddol eang parhaus, sy’n arwain at lefel uchel o faethynnau (fel nitrogen a ffosfforws) a llwythi gwaddodion mewn dŵr croyw.¹³

32. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi bod ymgynghoriad ‘Heriau a Dewisiadau’ CNC yn 2019 wedi nodi llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth fel y rheswm pam yr oedd 113 o gyrff dŵr wedi methu â chael statws ecolegol da, a bod CNC wrthi’n adolygu statws cyrff dŵr yng Nghymru. Dywedodd fod y data diweddaraf sydd ar gael yn cadarnhau bod *“140 o gyrff dŵr yng Nghymru yn methu â chael statws da oherwydd amaethyddiaeth, gyda 232 arall yn ymwneud ag amaethyddiaeth yn ôl pob tebyg a 118 yr amheuir eu bod yn methu oherwydd amaethyddiaeth, gan nodi mai amaethyddiaeth yw prif achos methiant.”*

33. Nododd y papur fod dalgylchoedd sy’n methu safonau mewn perthynas â’r Gyfarwyddeb Nitradau yn cwmpasu tuag 8% o Gymru a bod cyflenwadau yfed dŵr daear preifat yn arbennig o agored i lygredd, gydag 8.7% o brofion yn methu â chyrraedd y safonau yn 2014 oherwydd paramedrau microbiolegol a chemegol. Aeth ymlaen i ddweud nad yw llygredd nitradau sy’n effeithio ar fioamrywiaeth wedi’i gyfyngu i’r ardaloedd a argymhellir gan CNC i’w dynodi’n Barthau Perygl Nitradau.

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig

34. Eglurodd y dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a CNC¹⁴ fod argymhelliad wedi'i wneud i CNC yn 2016 i ddynodi lleiafswm o 8% o Gymru yn Barthau Perygl Nitradau *"mewn ymateb i ofynion y Gyfarwydddeb Nitradau yn unig ac nid ystyriwyd gyrwyr eraill, megis cyrff dŵr a oedd yn methu â chyflawni statws da gan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, afonydd dynodedig ACA yn methu eu targedau ffosffadau, safleoedd sensitif yn mynd tu hwnt i drothwyon amonia ac ati, gan nad yw'r rhain wedi eu cynnwys yn y fethodoleg."*

35. Dywedodd Creighton Harvey o Afonydd Cymru wrth y Pwyllgor fod digwyddiadau amaethyddol, yn enwedig yn ymwneud â ffermio llaeth, yn arwyddocaol fel un o'r ddwy brif ffynhonnell llygredd dŵr yng Nghymru, ynghyd â llygredd o weithfeydd trin carthion:

*"...[if] you look at the map of pollution incidents in Wales, you'll see the huge concentration of agricultural incidents in the dairy farming areas of the south-west, and also to some extent up in the north-east as well, but the problem is less there. So, agriculture is up there in terms of the numbers of pollution incidents, and both major sources of pollution have to be tackled."*¹⁵

36. Dadleuodd hefyd nad oedd y broblem yn gyfyngedig i ffermydd llaeth mwy o faint:

*"Over the last four years, I've followed six prosecutions through the magistrates' court in Swansea and Llanelli. All involved dairy farms. One involved a huge dairy farm—it was at that time milking 1,800 cows—one involved a farm milking 700 cows, and the other four involved small family farms on small streams, where bad management or infrastructure failure resulted in serious incidents."*¹⁶

37. Roedd dystiolaeth Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'r ddadl hon fod "digon o le i storio slyri yn y sector llaeth yn broblem sy'n effeithio ar faint pob fferm", gan ychwanegu y "gall effaith gronol llygredd o lawer o ffermydd bach fod mor sylweddol â'r llygredd a achosir gan fferm fawr."¹⁷

38. Ar y llaw arall, cyflwynodd undebau'r ffermwyr ddarlun o welliant mewn ansawdd dŵr dros amser, amrywiadau rhanbarthol sylweddol ledled Cymru, a nifer o faterion gwahanol sy'n dylanwadu ar ansawdd dŵr. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru:

¹⁴ <https://busnes.senedd.cymru/documents/s119995/APR%2032%20Cyfoeth%20Naturiol%20Cymru.pdf>

¹⁵ Paragraff 131, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

¹⁶ Paragraff 214, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig

"... in 2016, 2017, 2019 and 2020 water pollution incidents attributable to the water industry across Wales were higher than those attributable to agriculture.

... in many Welsh water catchment areas, no water pollution incidents have been attributed to agriculture since 2015, while in scores of others the number of incidents attributed to agriculture are dwarfed by those attributed to other industries and sectors.

*For example, 49% of water catchments across Wales had 2 or less water pollution incidents relating to agriculture during the 5 year period from 2016-2020, 9% of which did not experience a single incident."*¹⁸

39. Gofynnwyd i Rachel Sharp o Ymddiriedolaethau Natur Cymru a oedd yn derbyn un o ffigurau undeb y ffermwyr a oedd yn awgrymu mai dim ond 16.7 y cant o gyfanswm yr achosion o lygredd yng Nghymru oedd yn llygredd amaethyddol rhwng 1 Mawrth 2016 a 31 Rhagfyr 2020. Dywedodd fod ganddi broblem gyda'r data o ran faint o fonitro a oedd yn digwydd, a'i barn hi oedd bod digwyddiadau llygredd wedi'u tangofnodi'n sylweddol. Aeth ymlaen i honni ei bod yn ddiarhebol o anodd canfod ffynhonnell digwyddiad llygredd gwasgaredig, boed o un fferm neu ffermydd lluosog.¹⁹

40. Eglurodd Creighton Harvey mai un rheswm pam y tangofnodwyd achosion o lygredd oedd y canllawiau ynghylch galw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) allan mewn perthynas â digwyddiad:

*"Unless there is a serious incident where there is risk to human health or fish kill or fish in distress, basically, NRW are not going to turn out, and incidents are only recorded when NRW confirm that the incident took place. So, you might report an incident, NRW do not think it is of sufficient importance to turn out immediately, so, they might turn out the following day, by which time the incident has passed and they cannot confirm an agricultural pollution incident."*²⁰

41. Tynnodd sylw hefyd at effaith y pandemig ar ddata CNC ers mis Mawrth 2020, oherwydd nad oedd CNC yn mynychu digwyddiadau er mwyn eu cadarnhau, gan ddweud bod nifer y

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁹ Paragraff 138, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

²⁰ Paragraff 142, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

digwyddiadau a gofnodir yn uwch ond bod y nifer sy'n cael eu cadarnhau yn is gan nad oedd CNC yn ymchwilio iddynt oherwydd yr argyfwng COVID.²¹

42. Ar ôl rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ym mis Medi 2021, rhoddodd CNC dystiolaeth ysgrifenedig atodol i'r Pwyllgor gan gynnwys achosion o lygredd a gofnodwyd ac a brofwyd rhwng 2016 a 24 Medi 2021.²² Dywedodd:

"mae'r data yn nodi mai'r sector amaethyddol a'r diwydiant dŵr yw'r cyfranwyr mwyaf at y llygredd a adroddwyd ac a gadarnhawyd i CNC."

43. Nododd CNC "O ganlyniad i natur fyrhoedlog rhai digwyddiadau llygredd, oedi mewn adrodd ac amgylchiadau eraill tu hwnt i reolaeth CNC, nid yw bob amser yn bosibl nodi ffynhonnell y llygredd." Esboniodd y byddai'r adroddiadau hyn yn aros heb eu cadarnhau ac na fyddent yn ymddangos yn ei graffiau data.

44. O ran llygredd o'r diwydiant dŵr, dywedodd CNC "Mae cwmnïau dŵr yn gyfrifol am hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd i CNC a'u cofnodi ar y System Cofnodi Digwyddiadau Cymru. Caiff y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn y diwydiant dŵr eu hunanadrodd, gan gynnwys y rhai gyda photensial o lygru ond efallai na fyddant yn arwain at effaith amgylcheddol. Dylid ystyried y cynnydd posibl hwn o ddigwyddiadau a adroddwyd gan y diwydiant dŵr mewn unrhyw gymariaethau o achosion sector."

45. Holwyd y Gweinidog ynghylch y ffordd yr oedd y diwydiant amaethyddol yn cael ei dargedu ar gyfer rheoleiddio o'i gymharu â'r diwydiant dŵr, sy'n rhan o bortffolio'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Tynnodd sylw at 45 o achosion o lygredd amaethyddol a brofwyd hyd yn hyn yn 2022, gan ddweud:

*"We can't let it carry on in the way that it has done. These regulations were necessary to ensure that we deliver net zero...and that we don't undermine our environmental standards. As we left the European Union, we've got very high standards here in Wales, and we want to maintain them, and we cannot let a few spoil it for everyone. So, I think it is really important. But, we're not just targeting agricultural pollution. I am aware that pollution happens from other areas, and I know that the Minister for Climate Change continues to have discussions with the water sector, for instance."*²³

²¹ Paragraff 143, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

²² <https://busnes.senedd.cymru/documents/s19995/APR%2032%20Cyfoeth%20Naturiol%20Cymru.pdf>

²³ Paragraff 146, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

46. Mae'r Pwyllgor hwn hefyd yn cydnabod bod Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd wedi **adrodd** ar wahân ym mis Mawrth ar ganlyniadau ei ymchwiliad i ansawdd dŵr a gollyngiadau carthion, ac mae dadl ar yr adroddiad hwnnw wedi'i threfnu ar gyfer 15 Mehefin 2022.

4. Dull Cymru gyfan

47. Dadleuodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod dull gweithredu trawsdiriogaethol yn golygu bod Cymru'n barod ar gyfer ffermio dwys mewn ardaloedd newydd, mwy sensitif, a dywedodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru y bydd dull gweithredu Cymru gyfan yn atal y posibilrwydd o drosglwyddo'r mater i feysydd nad ydynt yn ymwneud â rheoleiddio.²⁴ Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd ei fod yn rhoi pob ffermwr mewn sefyllfa gyfartal, gan osgoi anghydbwysedd cystadleuol²⁵.

48. Gwrthododd Gareth Parry o Undeb Amaethwyr Cymru yr honiad hwnnw gan ddweud:

*"...applying these regulations across the whole of Wales necessarily doesn't address that competition due to the nature of farming. Nevertheless, there is obviously a need to target certain areas where there is an issue, rather than simply making the assertion that it will enable intensification in certain areas where it isn't happening already."*²⁶

49. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd mai ar systemau sy'n seiliedig ar slyri y bydd y Rheoliadau'n cael yr effaith fwyaf. Dywed os nad yw fferm yn cynhyrchu slyri yna prin fydd effaith y dull rheoleiddiol arni.²⁷ Heriwyd hyn yn gryf gan y ddau undeb ffermio (gweler yr adran Effaith Ariannol a Chyllid isod).

50. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn Cytuno â hynny gan ddweud bod un digwyddiad o lygredd yn un yn ormod²⁸, fodd bynnag, roedd y ddau undeb ffermio yn anghytuno'n gryf â dull Cymru gyfan. Dadleuodd NFU Cymru nad oedd dim tystiolaeth i gyfiawnhau dull Cymru gyfan sy'n anghymesur a beichus, a chwestiynodd effeithiolrwydd dynodiadau Parthau Perygl Nitradau dros amser. Tynnodd NFU Cymru sylw at wybodaeth gan CNC a oedd yn dangos:

*"... no substantive evidence of the effectiveness of the [previous] NVZ Action Programme in reducing agricultural pollution despite ... designations dating back to 2002. In fact, spikes in nitrates have been observed prior to the start of and at the end of the closed periods."*²⁹

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig

²⁶ Paragraff 53, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig

²⁸ Paragraff 97, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig

51. Dywedodd Robert Vaughan o CNC wrth y Pwyllgor:

*"... our knowledge from [Wales and] other parts of the country and into Europe is that there hasn't been a reduction, mainly, in nitrate levels within the ground as a consequence of the designations happening. Very few areas that have been designated have actually come out of designation."*³⁰

52. Pwysleisiodd Aled Jones o NFU Cymru fod CNC yn cynnal profion dŵr trylwyr iawn, iawn a bod y dystiolaeth yn gwbl ddiffygiol ar gyfer y gofyniad am ddull gweithredu Cymru gyfan:

*"yes, they're very under-resourced, but we can trust the information that comes out of NRW. That data shows that there are 113 of the 952 water bodies that are failing. And so there are some areas that have never, in the last 10 years, had any issues at all. So, for that reason, the evidence is totally lacking."*³¹

53. Tynnodd Aled Jones o NFU Cymru sylw hefyd at wahanol ddulliau a ddefnyddiwyd y tu allan i Gymru, a oedd, meddai, yn dangos diffyg tystiolaeth bod yr hyn y mae undebau'r ffermwyr yn ei ddisgrifio fel 'dull Parth Perygl Nitrogen pob tiriogaeth' wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd dŵr:

*"England have adopted 58 per cent of the land area in NVZs and Scotland 14 per cent. The rest of Scotland use what they call basic measures, which are voluntary measures that the farmers undertake for those reasons. Ulster decided to go for an all-territory approach and likewise, 10 years ago, when they introduced the all-Ulster approach, the evidence in terms of the improvement in water quality is certainly not there."*³²

54. Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru pam nad oedd yn credu y byddai targedu daearyddol yn atal llygredd:

"Ni fyddai targedu rheoliadau'n ddaearyddol yn atal llygredd rhag digwydd mewn ardaloedd lle nad yw rheoliadau'n gymwys, gan gynnwys drwy ddwysáu anghynaliadwy, ac ni fyddai'n gwneud fawr ddim i fynd i'r afael ag allyriadau atmosfferig. Mae ardaloedd sydd â safonau amgylcheddol is mewn mwy o berygl o arferion anghynaliadwy. Mae'r meysydd hyn hefyd yn

³⁰ Paragraff 22, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Medi 2021

³¹ Paragraff 45, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

³² Paragraff 46, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

fwy tebygol o gael eu hystyried yn feysydd i'w datblygu, oherwydd gofynion rheoliadol is.

Ni fyddai dull wedi'i dargedu'n ddaearyddol yn diogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Dyna pam y cymerwyd dull sy'n atal llygredd rhag digwydd, yn hytrach nag ymateb ar ôl i ddifrod sylweddol gael ei achosi."

55. Dadleuodd Llywodraeth Cymru yn gryf hefyd mai dull Cymru gyfan oedd yr unig ffordd i warantu gwelliannau hirdymor i gyrff dŵr, a all gymryd degawdau i'w cyflawni, ac i fynd i'r afael ag effaith llwythi maethynnau, y mae'n ei disgrifio fel "bom amser nitradau":

*"Ni fyddai cyrff dŵr sy'n methu â chyflawni statws da'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a'r rhai sy'n mynd dros derfynau ffosfforws yn cael eu diogelu gan PPNau ar wahân. Ni fyddai dynodi PPNau ar wahân yn gwneud fawr ddim i fynd i'r afael ag allyriadau amonia ac ocsid nitraidd neu PM2.5 a achosir gan amaethyddiaeth a chyrff dŵr ac ni fyddai bioamrywiaeth yn cael eu diogelu rhag effeithiau digwyddiadau llygredd."*³³

Effaith ar yr ucheldir

56. Mae gan amgylcheddwyr bryderon penodol am slyri o weithgaredd ffermio llaeth dwys: dywedodd Rachel Sharp o Ymddiriedolaethau Natur Cymru bod problem wirioneddol gyda gwastraff llaeth mewn afonydd yn y gorllewin, fel afon Teifi er enghraifft.³⁴

57. Dywedodd Creighton Harvey fod CNC wedi mynegi pryderon i is-grŵp llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru ynghylch y ffaith nad oedd modd ble y byddai achosion o arfer gwael yn codi. Dywedodd mai'r arfer a ddisgrifiwyd gan CNC oedd:

*"...a short lease, perhaps 15 years, would be taken out in relation to a particular farm, and then, some dramatic changes would take place on that farm, including the installation of tracks, the ripping out of hedgerows, which would be in breach of some of the cross-compliance legislation. There would be slurry stores installed that would not be ...compliant. And, basically, there was a huge risk of diffuse pollution taking place as a result of these actions, and they couldn't say where these farms were going to occur."*³⁵

58. Nid oedd am weld deddfwriaeth yn gorfod 'dal i fyny' ag arfer gwael:

³³ <https://busnes.senedd.cymru/documents/s124835/Tystiolaeth%20gan%20Llywodraeth%20Cymru.pdf>

³⁴ Paragraff 127, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

³⁵ Paragraff 150, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

*"If you don't have an all-territory provision, what you'll end up with is farmers, quite legally, adopting bad practice in upland areas, and you will have a delay when legislation has to catch up with bad practice. And, to me, that seems completely unacceptable. It's very difficult for legislation to work if it's always having to follow the problem. Really, regulation needs to be there across territory for the problem to be dealt with."*³⁶

59. Fodd bynnag, dywedodd Aled Jones o NFU Cymru hefyd y gallai effaith y Rheoliadau ar ffermydd llaeth, defaid neu ffermydd cymysg llai ar yr ucheldir arwain at effeithiau amgylcheddol andwyol eraill yn yr ardaloedd hynny:

*"...many of our hill farms are covered now by the water regulations, and they will also have to adhere to the paperwork involved and the limits that they would have on their businesses. Now, some of these farms in the highland area would typically be grazing suckler cow herds, sheep, mixed farms, and the implications for those smaller farms of not being able to invest in the capital requirements would have serious implications on the number of cattle we do have in these upland scenarios. Now, there's an accepted understanding of the importance of cattle in an upland setting. Biodiversity, ground nesting birds are severely impacted if the rough grasses become far more prevalent, and the lack of cattle grazing and cattle treading means that there's a reduction in the ground nesting birds. So, there are implications, and we must be aware of these long-term impacts."*³⁷

60. Tynnodd Undeb Amaethwyr Cymru sylw hefyd at yr effaith ar ffermwyr llai ar yr ucheldir a allai gael eu gorfodi i roi'r gorau iddi:

*"...it's also important to recognise...that there will be a number of upland farmers who will have small cattle suckler herds who will not be able to bear these costs of around £30,000 to £40,000 for new slurry stores. Simply, the easy way out for those farmers will be to stop farming cattle."*³⁸

61. Cododd y Pwyllgor y pryderon hyn ynghylch canlyniadau anfwriadol – i'r diwydiant ffermio ac i ffermwyr unigol, ac i fioamrywiaeth ardaloedd yr ucheldir – gyda'r Gweinidog.³⁹ Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn derbyn y dadleuon hyn:

³⁶ Paragraff 152, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

³⁷ Paragraff 49, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021.

³⁸ Paragraff 78, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021.

³⁹ Paragraff 58, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

*"You referred to biodiversity, and, obviously, upland habitats, species, can be more sensitive to pollution. It is still critical pollution is prevented in these areas if we are going to address the climate and nature emergencies. So, what these regulations will do, in my opinion, is prevent unsustainable intensification of upland farming, which could otherwise occur in the absence of a regulatory baseline."*⁴⁰

62. Yna cyfeiriodd y Gweinidog at yr adolygiad pedair blynedd arfaethedig o'r Rheoliadau fel cyfle i nodi canlyniadau anfwriadol a mynd i'r afael â nhw. Holodd y Pwyllgor y Gweinidog yn benodol am effaith andwyol y Rheoliadau ar iechyd meddwl ffermwyr, gyda rhai hyd yn oed yn ystyried gadael ffermio yn gyfan gwbl. Dywedodd y Gweinidog os oedd unrhyw un yn dioddef o broblemau iechyd meddwl o ganlyniad i bolisi, bod hynny'n destun pryder, gan gydnabod yn arbennig effaith fawr Covid ar iechyd meddwl ffermwyr ac ynysu cymdeithasol. Anogodd bobl yn gryf i beidio ag eistedd gartref a phoeni, ond i ofyn am gyngor gan Cyswllt Ffermio. Ailadroddodd y dylai ffermwyr, yn y lle cyntaf, ddarllen y Rheoliadau, a dywedodd eu bod yn debyg iawn i'r hyn a oedd ar waith o'r blaen, ac yn ail, y dylent geisio cyngor ar unrhyw bryderon gan fod swm sylweddol o gyngor ar gael.

⁴⁰ Paragraff 61, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

5. Effaith ariannol a chyllid

Yr effaith ar ffermwyr yn sgil y cynnydd mewn rheoleiddio a chostau ariannol

63. Mae'r ddau undeb ffermio yn gwrthwynebu'r Rheoliadau ar sail cost, a dadleuwyd eu bod yn anghymesur. Cyfeiriodd NFU Cymru at y costau amcangyfrifedig yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru o hyd at £813.5 miliwn dros 20 mlynedd gan gynnwys costau ymlaen llaw o hyd at:

- £360 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith newydd;
- £7.5 miliwn o gostau cynllunio untro; a
- £22.3 miliwn o gostau gweithredu blynyddol.

64. Cymharwyd hyn â'r buddion amgylcheddol amcangyfrifedig o £304 miliwn (amrediad: £153 miliwn i £526 miliwn).

65. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod hyn yn cyfateb i gost gyfartalog o £14,600 fesul daliad, gan godi i £37,700 ar gyfer daliadau â gwartheg. Dywedodd y gallai hyn fod yn uwch oherwydd bod cost deunyddiau adeiladu wedi codi'n sydyn.

Cyllid

66. Roedd y Pwyllgor ar ddeall o dystiolaeth a oedd ar gael ar ddechrau ei adolygiad bod Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £35 miliwn i helpu ffermwyr i roi'r newidiadau ar waith:

- £22 miliwn drwy'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (yn 2020);
- £1.5 miliwn i wella ansawdd dŵr (2021); ac
- £11.5 miliwn ar gyfer seilwaith rheoli maethynnau ar ffermydd (2021).

67. Cyfeiriodd y ddau undeb at Ogledd Iwerddon fel esiampl a gyflwynodd ddynodiad tiriogaeth gyfan dros ddeng mlynedd yn ôl gan ddarparu £140 miliwn-£150 miliwn o gyllid ar gyfradd grant o 60%. Dywedodd NFU Cymru, yn seiliedig ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau, y byddai hyn yn cyfateb i tua £216 miliwn yng Nghymru ar gyfradd ymyrraeth gyfatebol.

68. Tynnodd Gareth Parry o Undeb Amaethwyr Cymru sylw at y ffaith y byddai rhai ffermwyr mwy gyda chyfraddau cynhyrchu a stocio slyri uwch yn ceisio prynu neu rentu mwy o dir dim ond er mwyn taenu slyri. Dywedodd ei bod yn bwysig cydnabod bod ffigur senario waethaf Llywodraeth Cymru yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o hyd at £360 miliwn i'r diwydiant mewn costau seilwaith (e.e. costau ymlaen llaw ar gyfer storfeydd slyri newydd) tua £100 miliwn yn fwy na chyfanswm yr incwm ffermio yng Nghymru yn 2019, gan ychwanegu bod hyn yn gost enfawr i'r diwydiant os caiff dull Cymru gyfan ei weithredu fel sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd.⁴¹

69. Dadansoddodd Gareth Parry y costau ymhellach, i'r gost gyfartalog fesul daliad gweithredol yng Nghymru sydd â gwartheg yn unig:

*"This £37,000 is around £11,000 more than the average Welsh farm business income in 2019-20. But also it's worth highlighting, in reference to those costs, that those costs could be around 20 per cent higher by now given the shortage of building materials and also the number of farmers who are having quotes that are only lasting for one or maybe two months, given how prices are increasing."*⁴²

70. Tynnodd Gareth Parry sylw at y ffaith bod y cyllid cyfalaf a ddyrannwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru - £11.5 miliwn - yn cyfateb i 3% o'r costau posibl yn yr asesiad effaith, a *phe bai newid o ddull Cymru gyfan i ddull wedi'i dargedu'n fwy, yna byddai'r cyllid grant hwnnw'n gallu cael ei ddefnyddio'n llawer mwy effeithiol.*⁴³

71. Pan holwyd y Gweinidog yn y Pwyllgor am gyfanswm y cymorth grant o £35 miliwn, dywedodd:

"We've given far more than £35 million. I think just in the last three years, we gave more than £40 million, and that's been made available directly to farmers to reduce pollution and to support the necessary changes that they think they have to bring forward in relation to their own farm practices."

72. Cyfeiriodd y Gweinidog at restr hir o wahanol gronfeydd cyllido a mecanweithiau grant, gan gynnwys £22 miliwn a roddwyd i wella seilwaith cyfalaf; *tuag £8 miliwn* mewn grant cynhyrchu cynaliadwy; y grant busnes fferm i gaffael offer; tua £5 miliwn ar ansawdd dŵr; grantiau llai drwy Glastir; a chefnogi busnesau fferm drwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Dywedodd hefyd fod yna gynlluniau penodol o fewn y pecyn cymorth tair blynedd ehangach, gwerth £227 miliwn, i goedwigwyr, rheolwyr tir a busnesau bwyd er mwyn galluogi busnesau

⁴¹ Paragraff 72, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁴² Paragraff 73, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁴³ Paragraff 77, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

fferm i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith. Anogodd y Gweinidog fusnesau llai i droi at Cyswllt Ffermio i gael cyngor ar y cymorth sydd ar gael. Amlinellodd amrywiaeth o ddigwyddiadau, modiwlau e-hyfforddiant, gweminarau, clinigau a chyhoeddiadau a oedd yn cael eu defnyddio i gynghori ffermwyr ar y Rheoliadau.⁴⁴

73. Aeth y Gweinidog ymlaen i gyfeirio at gyhoeddiad yn y dyfodol ynghylch ffenestr gyllido o tua £100 miliwn yn ystod y 3-4 mis nesaf a fydd yn cynnwys cynlluniau i gefnogi buddsoddiadau i wella perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol busnesau fferm, ac i gefnogi buddsoddiadau mewn seilwaith gan gyfeirio'n benodol at bryderon ynghylch storio slyri, ond gan nodi na all Llywodraeth Cymru roi arian cyhoeddus i sicrhau bod ffermwyr yn cyrraedd y safon gyfreithiol ofynnol.

74. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y gofynion storio slyri yn debyg i'r gofynion presennol ers 1991, a thynnodd sylw hefyd at brosiect llaeth gan CNC a oedd wedi dangos lefel uchel o ddiffyg cydymffurfio gan ddweud nad oedd cyfran sylweddol o ffermydd, sef oddeutu 50 y cant, yn cydymffurfio â'r gofynion.

75. Rhestodd y Gweinidog amrywiaeth o gynlluniau cyllid a chymorth amaethyddol cyffredinol sydd ar gael i helpu ffermwyr gyda'r Rheoliadau, yn ogystal â chyfeirio at ffenestr gyllido arfaethedig. Er eglurder a thryloywder, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru amlinellu pa gymorth yn union sydd wedi bod ar gael, ac a fydd ar gael i ffermwyr er mwyn mynd i'r afael ag amrywiol ofynion y rheoliadau, a'r adnoddau a neilltuwyd i'w cynghori ar y gofynion hynny.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gymorth yn union sydd wedi bod ar gael i ffermwyr ac a fydd ar gael iddynt er mwyn bodloni gofynion ansawdd dŵr a gofynion amrywiol eraill Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 - yn gymorth ariannol ac yn wasanaethau cynghori. Dylai hyn gynnwys y symiau, y dulliau darparu cyllid a'r amserlenni, gan nodi'r adnoddau a roddir i Cyswllt Ffermio ac a ddarperir ganddo. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r ymchwil, y dystiolaeth a'r cyfrifiadau a wnaed i bennu'r lefelau cymorth sydd eu hangen ac a ddarperir.

76. Mae undebau'r ffermwyr yn gwrthbrofi'n gryf honiad Cyswllt Amgylchedd Cymru na fyddai'r gofynion rheoleiddio yn ymwneud â chyflwyno dull Cymru gyfan yn effeithio ar bob ffermwr. Meddai Aled Jones o NFU Cymru:

"...when they say that low-impact farmers should have nothing to worry about, unfortunately, regulation is regulation—30 mph is the same in Ysbyty

⁴⁴ Paragraff 87, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

*Ifan as it is in the centre of Cardiff. ...Now, once you bring regulation in, it's part of cross-compliance. Cross-compliance means, therefore, that there's monitoring. You could be drawn out for checks of record-keeping, for example, and any non-compliance would have the impact then of sanctions upon that business."*⁴⁵

77. Tynnodd Gareth Parry o Undeb Amaethwyr Cymru sylw hefyd at y costau uwch i ffermwyr yn sgil y gofynion amrywiol a amlinellir yn y rheoliadau:

*"there are a number of regulations set out in this legislation that refer to annual risk maps, nutrient management planning, farmyard manure management as well, annual record and calculation keeping, and also annual stock and manure records, and it's quite likely that there'll be a number of farmers who'll be seeking agencies, if you like, to complete these records for them if they do not have internet connection or do not have the IT skills to do so themselves. And, of course, there'll be an annual cost involved with that that could add up to thousands of pounds per year, notwithstanding the fact that there will be certain farmers who do produce slurry, which will obviously incur more significant capital upfront costs."*⁴⁶

78. Dywedodd fod y rheoliadau presennol yn annheg oherwydd y byddant yn cosbi'r rhai nad ydynt yn gyfrifol am lygredd a byddant yn arwain at gostau i'r ffermwyr hynny.⁴⁷

79. Barn y Gweinidog oedd os yw pobl yn ffermio i safon amgylcheddol uchel iawn, ychydig iawn o effaith a gaiff y rheoliadau hyn, os o gwbl,⁴⁸ gan ailbwysleisio cyfrifoldeb statudol ffermwyr i beidio â llygru.

⁴⁵ Paragraff 48, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁴⁶ Paragraff 54, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁴⁷ Paragraff 79, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁴⁸ Paragraff 59, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

6. Mesurau trosiannol

Cyfnodau trosiannol

80. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod y dull trosiannol a nodir yn y rheoliadau yn cael ei weithredu mewn tri cham: 1 Ebrill 2021; 1 Ionawr 2023 ac 1 Awst 2024 – a ddylai roi digon o amser i fusnesau fferm gynllunio, ond nad yw'n dod yn agos at gydnabod canlyniadau difrifol y rheoliadau i bob busnes ffermio yng Nghymru. Barn Cyswllt Amgylchedd Cymru oedd y dylai'r dull graddol a'r grantiau cymorth alluogi'r gwelliannau angenrheidiol.

81. Nid oedd y Gweinidog yn credu y byddai'r rheoliadau'n effeithio ar fwyaf y ffermwyr a chanddynt safonau amgylcheddol uchel iawn, gan ddweud na fydd y rheoliadau hyn yn effeithio arnynt yn y ffordd sydd wedi cael ei disgrifio gan rai.⁴⁹ Cydnabu ei bod yn anffodus bod blwyddyn wedi'i cholli yn sgil yr adolygiad barnwrol, gan nodi ei bod wedi cael trafodaethau gydag undebau'r ffermwyr a'i bod yn credu y byddent yn dweud yn agored bod rhai o'u haelodau efallai wedi eistedd yn ôl a meddwl, 'Does dim rhaid i ni frysio', oherwydd gallai'r canlyniad fod yn un yr oeddent ei eisïau.⁵⁰

82. Nododd y Gweinidog fod angen peth amser paratoi ar gyfer y gofynion map risgiau, ac y byddent yn gymwys o fis Ionawr 2023, ond bod cynllunio ar gyfer rheoli maethynnau eisoes yn ofyniad mewn llawer o gynlluniau gwarant fferm Llywodraeth Cymru. Dywedodd y byddai hyn yn cael yr effaith fwyaf ar y ffermydd hynny sy'n rhoi maethynnau ar y tir ar hyn o bryd heb unrhyw waith cynllunio ar gyfer rheoli maethynnau a dyna lle mae'r perygl mwyaf o lygredd neu'r rhai sydd, dyweder, yn cynhyrchu mwy o faethynnau na'r hyn sydd ei angen ar gnydau.

83. Y gofynion storio sydd â'r cyfnod trosiannol hiraf - maent yn gymwys o Awst 2024. Pwysleisiodd y Gweinidog eto fod y rhain yn debyg i'r gofynion presennol sydd wedi bod ar waith ers 1991. Ychwanegodd:

"...we know that insufficient slurry storage is one of the main causes of agricultural pollution, so if you think about when I introduced the regulations in April 2021 to what I've just stated in August 2024, that's three years, and that's ample time."⁵¹

⁴⁹ Paragraff 93, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

⁵⁰ Paragraff 94, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

⁵¹ Paragraff 96, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

Gwelliannau i seilwaith

84. Bydd angen i lawer o ffermydd wella eu seilwaith er mwyn bodloni'r Rheoliadau newydd a bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer hynny. Fel y soniwyd yn gynharach, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rheoliadau hyn gynhyrchu gwerth £7.5 miliwn o waith cynllunio.

85. Rhybuddiodd Aled Jones y Pwyllgor fod llawer o ffermydd wedi'i chael hi'n anodd iawn, iawn ymdopi â'r system gynllunio.⁵² Cododd Gareth Parry bryderon am y cyfyngiad ar gynllunio mewn perthynas ag adnoddau awdurdodau lleol a chost ceisiadau cynllunio, yn enwedig i ffermwyr tenant.⁵³

86. Mae'r Aelodau'n pryderu am y baich cynyddol ar ffermwyr a'r system gynllunio yn deillio o'r angen i gael caniatâd cynllunio i fodloni gofynion y Rheoliadau. Er bod y gost wedi'i nodi, hoffai'r Aelodau ddeall yn well sut y bydd effaith y llwyth gwaith cynyddol hwn ar awdurdodau lleol yn cael ei lliniaru.

87. Fel y soniwyd yn gynharach, mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y bydd angen i ffermwyr wneud gwerth hyd at £360 miliwn o welliannau i'r seilwaith. Mae'r Aelodau'n pryderu y gallai datblygiad o'r maint hwn greu tensiynau rhwng ffermwyr a'u cymdogion - ac efallai y bydd y drwgdeimlad hwn yn cael ei waethygu drwy'r broses gynllunio.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog amlinellu i'r Pwyllgor ei hystyriaethau o'r effaith y gallai'r Rheoliadau hyn ei chael ar y system gynllunio, a sut y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o waith gwella seilwaith sy'n ymwneud â'r rheoliadau hyn, gan gynnwys cyfrannu at ôl-groniad o geisiadau cynllunio neu fwy o densiwn cymunedol, yn cael eu lliniaru.

⁵² Paragraff 82, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

⁵³ Paragraff 10, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

7. Rhoi adnoddau i CNC i fonitro a gorfodi'r rheoliadau

88. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn pryderu na fydd y Rheoliadau yn cael yr effaith a ddymunir os nad oes gan CNC adnoddau i'w gorfodi.

89. Tynnodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru sylw at y lefel isel o erlyniadau am achosion o lygredd amaethyddol, a'r angen i ategu'r Rheoliadau â phroses orfodi ystyrlon a dirwyon digonol:

*"Since 2017 there have been just two prosecutions relating to agricultural pollution in Welsh rivers. New regulations, therefore, need to be backed up by meaningful enforcement. In addition, current fines of a few thousand pounds when prosecutions are undertaken are so low they may create a climate of opinion where it may be better to risk prosecution rather than invest in addressing the problem."*⁵⁴

90. Dywedodd Creighton Harvey o Afonydd Cymru fod y diffyg buddsoddiad, a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer staff CNC ar sail flynyddol, yn creu problemau mawr:

*"...people are given one-year contracts on the dairy scheme. They then see a permanent job become available within NRW; they apply for it and they get it, leaving the dairy project short of someone who was becoming an experienced operative on the dairy project. So, that's an example of a lack of funding."*⁵⁵

91. Dywedodd fod chwe swydd wag o blith cyfanswm o 13 o swyddi swyddogion llaeth:

*"...So, that shows the effect of money not being available to support a particular aspect of this, and that's why it's important that there is proper funding of NRW to make sure that they have the resources to regulate appropriately."*⁵⁶

92. Pan roddodd dystiolaeth fis Medi diwethaf, dywedodd CNC wrth y Pwyllgor y byddai gorfodi'r rheoliadau yn creu llwyth gwaith enfawr a bod staff yn cael eu hadleoli er mwyn iddynt

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig

⁵⁵ Paragraff 207, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁵⁶ Paragraff 208, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

gael eu hyfforddi. Dywedodd CNC ei fod yn trafod adnoddau ychwanegol gyda Llywodraeth Cymru. Ar y pryd amcangyfrifodd fod angen 60 o staff ychwanegol arno i ddarparu'r cynnyrch hyfwrdd lleiaf ond ymhell dros 200 i gyflawni'r rôl lawn.⁵⁷

93. Mewn sesiwn graffu ar y gyllideb gyda'r Gweinidog Materion Gwledig ar 20 Ionawr, dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi trafod cyllid ychwanegol gyda CNC, ond bod ymarfer adolygu llinell sylfaen y gyllideb yn cael ei gynnal i edrych ar ddyraniad adnoddau CNC o gymharu â'i swyddogaethau statudol, a'r ymrwymadau yn y rhaglen lywodraethu. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn disgwyl trafod y rheoliadau yn fanylach gyda CNC pan fyddai mewn sefyllfa i wneud hynny. Gweinidog gwahanol, sef y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, sy'n gyfrifol am osod cyllideb CNC.

94. Ar ôl craffu ar y gyllideb, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, yn mynegi pryder nad oedd cyllid CNC wedi'i gynyddu i adlewyrchu'r cyfrifoldebau gorfodi ychwanegol sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Argymhellodd y Pwyllgor fod y ddau Weinidog yn cydweithio i sicrhau bod cyllid 'cymorth grant' craidd CNC yn cael ei gynyddu yn unol â hynny. Derbyniodd y Gweinidog Materion Gwledig yr argymhelliad mewn egwyddor, gan nodi bod adolygiad llinell sylfaen CNC wedi'i gwblhau a bod Llywodraeth Cymru a CNC yn datblygu cytundebau lefel gwasanaeth, y disgwylir iddynt gael eu cwblhau erbyn mis Hydref eleni. Ymrwymodd y Gweinidog i weithio gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd i sicrhau bod cyllid CNC yn adlewyrchu'r cytundebau lefel gwasanaeth fel y bo'n briodol.

Argymhelliad 4. Dylai Gweinidogion Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd ar ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru gytuno ar y cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer yr adnoddau i orfodi'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (a ddisgwylir erbyn mis Hydref 2022). Dylai'r llythyr nodi'r pwyntiau allweddol yn y cytundeb lefel gwasanaeth, gan gynnwys lefelau adnoddau; yr hyn y disgwylir i CNC ei wneud; pa ganlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl; a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i osod y lefelau yn y cytundeb.

Dull wedi'i dargedu

95. Roedd y ddau undeb ffermio yn dadlau'n gryf dros ddull wedi'i dargedu a fyddai'n fwy effeithiol ac yn caniatáu i adnoddau cyfyngedig gael eu defnyddio yn y meysydd sy'n peri pryder. Dywedodd Aled Jones o NFU Cymru:

⁵⁷ Paragraff 48, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Medi 2021

*"...if you unroll mitigation measures, where you target where the problems arise, then you're more likely to get a response in terms of return on the investment that would be required there as well."*⁵⁸

96. Dywedodd Gareth Parry o Undeb Amaethwyr Cymru:

*"in terms of the evidence that's available, it all emphasises, of course, the need for a targeted approach rather than simply an all-Wales NVZ, using regulations that are 30 years old and do not target the need that Wales has."*⁵⁹

97. Esboniodd fod gan CNC, fel y rheolydd, ystod o offer eisoes i ddelio â digwyddiadau unigol, yn hytrach na bod angen defnyddio mesurau cyffredinol.⁶⁰ Dywedodd:

*"...we're not against regulation, but we do believe that regulation targeted in those areas where there is an issue would enable those regulations to be policed more effectively, and would result in the desired outcomes that I think we all want, which is for those pollution incidents to be reduced."*⁶¹

98. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru wrth y Pwyllgor fod y system yn yr Alban, a gyflwynodd reolau rhwymol cyffredinol - rheolaethau statudol dros rai gweithgareddau risg isel - yn caniatáu i Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) ganolbwyntio ar droseddwyd mynych. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod y dull wedi sicrhau cyfradd gydymffurfio o 80%, sy'n golygu y gellid targedu'r 20% sy'n weddill i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

99. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn credu bod dull yr Alban yn debyg iawn i'r dull yng Nghymru, a'i fod yn orfodol er bod rhai gwahaniaethau, ond y byddai'r adolygiad arfaethedig o'r Rheoliadau ar ôl pedair blynedd yn caniatáu i gymariaethau gael eu gwneud yn seiliedig ar dystiolaeth. O ran bod yn bragmataidd ynghylch y trefniadau gorfodi, dywedodd y Gweinidog:

"I think it's fair to say that NRW take a very pragmatic approach to enforcement. Certainly, when I was responsible for NRW, I had many discussions about this and I never found them to be over the top or anything like that, and I think it's very similar with the enforcement agency in Scotland."

⁵⁸ Paragraff 47, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁵⁹ Paragraff 52, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁶⁰ Paragraff 40, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁶¹ Paragraff 97, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n amlinellu sut y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fynd ati i orfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

8. Ymgorffori'r Rheoliadau mewn Safonau Gofynnol Cenedlaethol

100. Mae NFU Cymru yn pryderu y bydd y rheoliadau presennol, gan gynnwys y Rheoliadau hyn, yn cael eu hymgorffori mewn Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn y dyfodol, gyda chydymffurfiaeth yn rhagofyniad i gael cymorth yn y dyfodol drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

101. Mae'r undeb yn dadlau bod hyn yn peryglu busnesau sydd, am ba bynnag reswm, yn methu â chydymffurfio â'r rheoliadau, ac y bydd ffermwyr tenant a ffermydd sy'n dioddef achos o TB buchol mewn perygl mawr. Mae undebau'r ffermwyr a Chymdeithas y Ffermwyr Tenant yn pryderu am yr effaith ar ffermwyr tenant oherwydd, yn nodweddiadol, mae angen i denantiaid ofyn i'r landlord wneud y gwelliannau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol. Os bydd landlordiaid yn gwrthod, efallai y bydd tenantiaid yn wynebu achosion hir a chostus o gyflafareddu neu achosion llys. Dywedodd Aled Jones o NFU Cymru:

*"I would like to remind the committee about the implications for tenant farmers, particularly the impact that they have on landlords not being able to fund some of the capital work involved. If they then are unable to fulfil the national minimum standards, their access then to future support would be diminished quite substantially. So, I think the long-term implications are enormous, and I don't think this has been adequately covered within the regulatory impact assessment, either."*⁶²

102. Cyfeiriodd Gareth Parry o Undeb Amaethwyr Cymru at adroddiad is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru sy'n manylu ar ddull mwy hyblyg yn y dyfodol o ddileu rhai elfennau o'r fframwaith rheoleiddio gorfodol a'u gwneud yn wirfoddol, a fyddai wedyn yn caniatáu i ffermwyr gael eu talu am gamau gweithredu y tu hwnt i'r rheoliadau. Dywedodd ei fod yn credu y byddai hynny'n gydbwysedd mwy effeithiol i alluogi'r ffermwyr hynny i gael eu gwobrwyo am gydymffurfio â rhai o'r mesurau llymach.⁶³

103. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru ar y llaw arall fod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gyfle i osod llinell sylfaen reoleiddiol glir ar gyfer amaethyddiaeth gynaliadwy, ac i lenwi bylchau rheoleiddio.

⁶² Paragraff 88, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁶³ Paragraff 91, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

104. Pwysleisiodd y Gweinidog i'r Pwyllgor bwysigrwydd ffermydd sy'n cael taliadau i sicrhau canlyniadau amgylcheddol sy'n cydymffurfio â safonau rheoleiddiol sylfaenol⁶⁴.

105. O ran ffermwyr tenant, dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig bod cyllid yn cael ei roi i'r ffermwr gweithgar, nid i'r landlord. Dywedodd fod gan ffermwyr tenant 'sedd wrth y bwrdd' ar is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a'i bod yn bwysig clywed llais y tenant.

106. Ymatebodd y Gweinidog hefyd i bryderon ynghylch ffermwyr yn methu â chydymffurfio oherwydd achosion o TB buchol, gan ddweud y byddai CNC yn mabwysiadu dull pragmataidd ac yn gweithio gyda ffermwyr yn y sefyllfa honno.

107. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pryderon undebau'r ffermwyr ynghylch cynnal hyblygrwydd o fewn y fframwaith rheoleiddio, ac yn benodol rhinweddau cefnogi ffermwyr tenant a'r rhai yr effeithir arnynt gan TB mewn gwartheg. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth fwy penodol gan Lywodraeth Cymru am sut y mae'n ystyried y pryderon hyn a sut yr eir i'r afael â nhw o dan y system orfodi.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth fwy penodol i'r Pwyllgor am sut y mae'n ystyried anghenion ffermwyr tenant a ffermydd yr effeithir arnynt gan TB buchol fel rhan o gyfundrefn orfodi CNC, a pha fecanweithiau a ddefnyddir i fonitro ac ymateb i bryderon a godir yn is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru neu drwy ddulliau eraill. Dylai'r Gweinidog roi diweddariadau blynyddol pellach i'r Pwyllgor ar y materion hyn, y tu allan i gwmpas amserlen yr adolygiad rheoleiddiol.

⁶⁴ Paragraff 128, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

9. Dulliau amgen

108. Ym mis Rhagfyr 2017, nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ymchwilio i fesurau rheoleiddiol, mentrau gwirfoddol a buddsoddi gyda rhanddeiliaid. Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, cafodd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru dan arweiniad NFU Cymru gyllid partneriaeth gan CNC ym mis Awst 2018. Rhoddodd NFU Cymru arian cyfatebol i'r prosiect yn uniongyrchol ac mewn nwyddau a oedd yn cyfateb i £78,750 gyda phartneriaid prosiect eraill yn darparu cymorth mewn nwyddau. Roedd gan Lywodraeth Cymru a CNC swyddogaeth gynghori. Roedd yr adroddiad cynnydd a ddarparwyd i'r Gweinidog ym mis Ebrill 2018 yn cynnwys 45 o argymhellion yn cwmpasu pum thema waith:

- cyfundrefn reoleiddio gref;
- datblygu dull gwirfoddol, a arweiniwyd gan ffermwyr, o ran rheoli maethynnau;
- darparu gwell cyngor a chanllawiau y gall ffermwyr wedyn eu defnyddio;
- gwella'r amrediad o gyfleoedd buddsoddi; a
- nodi a hyrwyddo arloesedd.

109. Cytunodd yr is-grŵp fod gan bob thema ran sylweddol i'w chwarae a bod angen eu hystyried fel rhan o becyn integredig: roedd Pennod 4 o'r adroddiad cynnydd yn ymchwilio i rôl rheoleiddio ac yn argymhell llwybr ar gyfer ei ddatblygu.

110. Mae NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru ill dau yn cymeradwyo gwaith yr is-grŵp ac eisiau i'r gwaith a nodir yn ei adroddiad barhau. Daeth yr is-grŵp i'r casgliad nad oes un ateb syml gan ddweud:

"Rhaglen o addysg, hyfforddiant, mentrau gwirfoddol gan ffermwyr, cymhellion, buddsoddiad ac arloesedd ydyw sy'n cael ei thanategu gan reoliadau clyfar ac adnoddau a gwaith monitro ychwanegol."

111. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig NFU Cymru yn nodi na chafwyd erioed ymateb ffurfiol i'r adroddiad cynnydd gan Lywodraeth Cymru. Pan ofynnwyd iddi am hyn, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad argymhellion i Lywodraeth Cymru oedd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn yr adroddiad, ond roeddent yn cael eu rhoi ar waith, ac roedd swyddogion yn parhau i fod yn aelodau o'r is-grŵp, a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd.

112. Cyhoeddodd NFU Cymru hefyd weledigaeth ar gyfer gwella ansawdd dŵr yn 2017 yn seiliedig ar:

"Participation in assurance schemes and 'earned recognition' and novel approaches including trading, off-setting and innovative technologies that look beyond formal regulation [and] can also deliver positive environmental outcomes."

113. Cynigiodd NFU Cymru hefyd safon dŵr sy'n cynnwys dull gwirfoddol dan arweiniad ffermwyr o wella ansawdd dŵr. Rhannwyd y safon gyda'r Gweinidog a'r Prif Weinidog ym mis Mawrth 2020 (fis cyn cyhoeddi'r rheoliadau). Dywedodd NFU Cymru ym mis Medi 2021 nad oedd eto wedi cael ymateb o sylwedd i'r cynnig gan Lywodraeth Cymru.

114. Nid yw Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cefnogi dull gweithredu gwirfoddol a arweinir gan ffermwyr, gan ddweud bod nifer o gynlluniau o'r fath wedi cael eu profi dros y blynyddoedd, ond nad oes yr un ohonynt wedi cael yr effaith ofynnol ar raddfa sydd wedi arwain at welliannau sylweddol i lygredd. Mae hyn yn cynnwys y Cod Ymarfer Amaethyddol Da. Mae CNC hefyd yn datgan bod mesurau gwirfoddol fel y Codau Ymarfer Amaethyddol Da, sydd wedi bod ar waith ers degawdau, wedi methu â sicrhau ansawdd dŵr gwell yn ymarferol, gan nodi bod y Rheoliadau yn cynnwys nifer o argymhellion Codau Ymarfer Amaethyddol Da.

115. Fodd bynnag, tynnodd Cyswllt Amgylchedd Cymru sylw at Brosiect Gwella Ansawdd Dŵr Afonydd Cymru a gynhaliwyd yn 2019. Roedd y prosiect yn rhoi cyngor i ffermwyr ar wahanu dŵr glân a dŵr budr, lleihau colli slyri, tail a gwaddodion, a lleihau effaith llygredd gwasgaredig. Dywed Cyswllt Amgylchedd Cymru y gallai efelychu hyn ledled Cymru gostio £8.4 miliwn o ran gwaith cyfalaf ar ffermydd gyda chyfraniadau cyfatebol 1:1 gan ffermwyr. Gallai'r gost i gynghorwyr (yn seiliedig ar 500 o gynghorwyr) fod tua £27 miliwn y flwyddyn. Dywed fod y lefel o fuddsoddiad yn werth chweil er mwyn mynd i'r afael â'r llygredd yn ein hafonydd.⁶⁵

Argymhelliad 7. Er budd ewyllys da a thryloywder, dylai Llywodraeth Cymru gydgysylltu â'r cyrff perthnasol er mwyn coladu a chyhoeddi diweddariad ar statws y 45 o argymhellion yn adroddiad is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Dylai hefyd nodi, lle y bo'n briodol, sut y mae'r argymhellion hynny wedi'u hystyried yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig

A fydd y rheoliadau'n arwain at "ffermio ar sail calendr"?

116. Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau yn pennu cyfnodau pan fo taenu gwrtaith wedi'i wahardd. Mae esemptiadau ar gyfer rhai mathau o ddaliadau a phridd, ond mae'r cyfnod gwaharddedig yn cwmpasu mis Hydref tan fis Ionawr, gyda rhai cyfyngiadau pellach hyd at ddiwedd mis Chwefror.

117. Dywed Undeb Amaethwyr Cymru y byddai hyn yn rhoi:

"...significant pressure on cattle farmers to empty their stores before the closed period and spread as much as possible within the limits after the closed period to ensure that storage capacity limits are not exceeded, rather than spreading at the optimal time in regard to weather conditions and crop requirements."

118. Mae cyfyngiadau o'r fath wedi arwain at yr hyn sydd bellach yn cael ei alw'n 'wythnosau taenu slyri cenedlaethol' mewn rhanbarthau fel Gogledd Iwerddon ble mae dull gweithredu pob-tiriogaeth bron wedi'i roi ar waith, gan arwain at gyfnodau brig o ran perygl llygredd. Tynnodd Aled Jones o NFU Cymru sylw at gynnydd sydyn mewn lefelau nitradau yng Ngogledd Iwerddon y naill ben a'r llall i'r cyfnod gwaharddedig oherwydd y dull 'ffermio ar sail calendr' hwn.⁶⁶ Clywodd y Pwyllgor ddadleuon cryf ynghylch pwysigrwydd hyblygrwydd i ffermwyr wrth iddynt daenu slyri.

119. Tynnodd Undeb Amaethwyr Cymru sylw at y ffaith bod y cyfnod gwaharddedig yn y Rheoliadau yn dileu'r hyblygrwydd hwnnw, yn ogystal â bod yn un o'r rhesymau mwyaf pam y bydd cost cyfalaf enfawr ynghlwm wrth adeiladu storfeydd slyri newydd.⁶⁷ Fel y dywedodd Aled Jones o NFU Cymru, nid yw ffermwyr erioed wedi ffermio ar sail calendr. Maent yn ffermio ar sail tymor, ac fel y gwelwyd yn sgi materion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, mae tymhorau'n newid.⁶⁸

120. Pan gafodd ei holi ar y pwynt hwn, ymateb y Gweinidog oedd mai'r unig reswm pam y byddai angen i ffermwyr daenu slyri y tu allan i'r cyfnodau gwaharddedig oedd os nad oedd ganddynt ddigon o le i storio slyri, ac mae angen iddynt sicrhau'r capasiti storio hwnnw. Dywedodd fod hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio arno gyda'r sector ffermio dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd o'r farn nad oedd y rheoliadau newydd yn fwy beichus na'r hyn a oedd yn ofynnol o'r blaen, a hefyd ei bod yn bryd i slyri gael ei

⁶⁶ Paragraff 99, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁶⁷ Paragraff 101, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁶⁸ Paragraff 99, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

werthfawrogi'n fwy fel maetholyn gwerthfawr yn hytrach na chynnyrch gwastraff, yn enwedig o ystyried pris gwrtaith ar hyn o bryd.

Mae rheoliad 45 o'r rheoliadau yn caniatáu ar gyfer mesurau amgen

121. Mae rheoliad 45 o'r Rheoliadau yn caniatáu ar gyfer datblygu mesurau amgen. Mae'r rheoliad yn nodi, os ceir cynigion ar gyfer cyfres amgen o fesurau o fewn 18 mis i'r rheoliadau ddod i rym (erbyn 1 Hydref 2022), rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a fyddai'r mesurau hyn yn cyflawni'r canlyniadau yn fwy effeithiol na'r mesurau a gynhwysir yn y Rheoliadau hynny. Os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon y byddai'r cynigion yn fwy effeithiol, rhaid iddynt gyhoeddi datganiad o fewn dwy flynedd ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym yn egluro pa gamau y bwriedir eu cymryd.

122. Fodd bynnag, dywedodd NFU Cymru fod cymaint o ddiffyg ymddiriedaeth nes bod y diwydiant ffermio'n amau'n fawr a yw hwn yn gynnig dilys. Nid yw'n credu bod Rheoliad 45 yn gredadwy nac yn ddichonadwy, oherwydd nid yw Llywodraeth Cymru wedi diffinio eto pa ganlyniadau a ddisgwylir. Dadleuodd hefyd fod yr amserlenni a nodir yn Rheoliad 45 yn gwbl anymarferol yng nghyd-destun y cyfnodau trosiannol a bennir gan y rheoliadau.

A yw gwelliannau i'r rheoliadau'n bosibl?

123. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod angen ailwampio'r rheoliadau'n llwyr gan argymhell gweithredu'r argymhellion sydd yn adroddiad is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

124. Gan gadarnhau ei fod yn gwrthod y dull presennol, galwodd NFU Cymru am newidiadau i'r rheoliadau, gan gynnwys y canlynol:

- Ymestyn y cyfnodau trosiannol presennol i o leiaf bedair blynedd er mwyn rhoi mwy o amser i ffermwyr baratoi eu busnesau.
- Mwy o gymorth ar ffurf buddsoddiad.
- Ni ddylai'r rheoliadau presennol fod yn rhan o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a fydd yn 'borth' i gymorth yn y dyfodol.
- Esemptiad ar gyfer taenu gwrtaith yn ystod y cyfnodau gwaharddedig o dan amgylchiadau eithriadol, y mae'n rhaid iddo hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer y ffermydd hynny yr effeithir arnynt gan TB buchol (fel sy'n wir yng Ngogledd Iwerddon).

125. Ond roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn dymuno gweld y Rheoliadau'n cael eu cryfhau mewn perthynas ag amonia a ffosffad, gan nodi diffyg eglurder ynghylch sut y bydd y Rheoliadau yn lleihau ffosffad o dail dofednod. Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd yn credu y dylai CNC:

"... set, record and monitor absolute cumulative limits on a holding by holding or catchment basis, against which proposed changes in farm operations or new developments can be assessed."

126. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd eisiau rheolaethau ar blaladdwyr, a rheolaethau i leihau erydiad y pridd a diogelu'r pridd yn fwy. Mae'n awgrymu cynnwys Pennod 4 o God Ymarfer Amaethyddol Da (hwsmonaeth caeau) i'r fframwaith rheoleiddio. Dywedodd Creighton Harvey o Afonydd Cymru:

*"Chapter 4 of COGAP deals with soil protection, and we do feel that if chapter 4 of COGAP, if some of that, was codified that would go to mitigate some of the problems caused by bad agricultural practice in relation to soil, in particular in relation to maize growing, which occurs particularly in the dairy farming areas."*⁶⁹

Y defnydd o dechnoleg

127. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gref am y defnydd o dechnoleg i hwyluso mwy o hyblygrwydd o ran pryd y gallai ffermwyr daenu slyri. Dywedodd CNC wrth y Pwyllgor:

*"We believe that we're now in a position, with modern technology and other communications, to be able to be far more flexible [...] You might have come across the work that is happening at Gelli Aur, where they've put a number of weather stations within the Tywi catchment to look at how things happen ... [...] ... We've been working with the Welsh Government on the new sustainable farming scheme. And, again, remote sensing and various other issues are being looked at as ways of being able to monitor what's going on within catchments and allow more precision in the way things operate."*⁷⁰

128. Soniodd Gareth Parry o Undeb Amaethwyr Cymru hefyd am fanteision ffermwyr yn defnyddio technoleg i fonitro patrymau'r tywydd a Data'r Swyddfa Feteorolegol a rhoi cyfrif am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar y 'tymhorau' wrth benderfynu pryd i daenu slyri.

⁶⁹ Paragraff 136, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

⁷⁰ Paragraff 114, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Medi 2021

129. Dywedodd Victoria Jones o Lywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod cynnig ar gyfer mesur amgen a oedd yn defnyddio technoleg yn cael ei asesu er mwyn cyflwyno cyngor i'r Gweinidog. Er i'r Gweinidog ddweud nad oedd yn gallu gwneud sylw ar gynigion unigol dywedodd ei bod yn fwy na bodlon i ystyried mesurau amgen, a'i bod yn bwysig iawn edrych ar y dechnoleg.

130. Nododd y Pwyllgor fod arloesi technolegol yn broses sy'n symud yn gyflym a bod Rheoliad 45 o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion ar gyfer unrhyw fesurau amgen gael eu gwneud o fewn 18 mis. Y tu hwnt i hynny, ni fydd yr adolygiad o dystiolaeth o effeithiolrwydd y Rheoliadau fel y maent ar hyn o bryd yn cael ei gynnal am bedair blynedd. Rhoddodd Victoria Jones o Lywodraeth Cymru sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Rheoliadau'n cael eu hadolygu'n barhaus ac y byddai'r Llywodraeth bob amser yn ystyried technolegau newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg⁷¹, ond dywedodd y Gweinidog ei bod yn angenrheidiol cael dyddiad cau yn y ddeddfwriaeth ar gyfer ystyried cynigion o dan Reoliad 45.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu unrhyw gynigion amgen addas sy'n defnyddio technoleg yn hytrach na chyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu gwrtaith, neu 'ffermio ar sail calendr'.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei hystyriaeth o gynigion amgen erbyn dechrau 2023 a diweddariadau blynyddol rheolaidd pellach ar ystyried mesurau amgen, cyn yr adolygiad rheoleiddiol ffurfiol.

Diogelu'r rheoliadau at y dyfodol

131. Mae sefydliadau amgylcheddol yn dadlau mai'r unig ffordd i ddiogelu'r rheoliadau at y dyfodol yw eu cymhwyso ar draws y diriogaeth gyfan. Un ddadl bwysig yw'r angen i warchod rhag effeithiau negyddol dwysáu ffermio. Fodd bynnag, pwysleisiodd Rachel Sharp o Ymddiriedolaethau Natur Cymru hefyd bwysigrwydd cael rheoliadau sy'n addas ar gyfer y dyfodol nid yn unig er tegwch, ond ar gyfer buddsoddi yng Nghymru yn y dyfodol:

*"Now, it's absolutely critical that we have everybody applying the same regulation across the board, because then investors then understand the regulatory baseline that they are going to be investing into."*⁷²

⁷¹ Paragraff 120, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 11 Mai 2022

⁷² Paragraff 146, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 25 Tachwedd 2021

10. Adolygu'r rheoliadau

132. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys gofyniad i'w hadolygu pob pedair blynedd. Er bod y Pwyllgor yn deall yr angen am amserlen resymol i ganiatáu i'r Rheoliadau fwrw gwreiddiau, er mwyn i seilwaith gael ei roi ar waith ac i ddata gorfodi a gweithredu gael eu casglu, mae pedair blynedd yn amser hir. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y Gweinidog wedi dweud ei bod yn fodlon i ystyried dulliau amgen y tu hwnt i'r terfyn amser o 18 mis a nodir yn Rheoliad 45. Fodd bynnag, ar ôl asesu'r dystiolaeth a ddarparwyd, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Rheoliadau cyn gynted â phosibl, ac y dylai'r gwaith paratoi i wella'r Rheoliadau ddechrau mewn da bryd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwaith y Pwyllgor hwn wrth adolygu'r Rheoliadau, ac fel Pwyllgor rydym yn bwriadu dychwelyd at y mater hwn cyn cyfrannu at adolygiad Llywodraeth Cymru, yn ddiweddarach yn nhymor y Chweched Senedd hon.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 cyn gynted ag y bo modd, a sicrhau bod y gwaith paratoi i wella'r Rheoliadau, gan gynnwys cyflwyno mesurau amgen, yn dechrau mewn da bryd. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwaith Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig wrth adolygu'r Rheoliadau.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
30 Medi 2021	Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd Ddwyrain Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru Robert (Bob) Vaughan, Rheolwr Tir Cynaliadwy, Cyfoeth Naturiol Cymru
25 Tachwedd 2021	Gareth Parry, Uwch Swyddog Polisi a Chyfathrebu, Undeb Amaethwyr Cymru Aled Jones, Dirprwy Lywydd, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Rachel Sharp, Dirprwy Gyfarwyddwr, Ymddiriedolaethau Natur Cymru Creighton Harvey, Ymddiriedolwr Annibynnol, Afonydd Cymru
11 Mai 2022	Lesley Griffiths AS, Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Llywodraeth Cymru Victoria Jones, Pennaeth Amaethyddiaeth, Is-adran Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru Eifiona Williams, Pennaeth Dŵr, Llywodraeth Cymru Andrew Chambers, Arweinydd Tîm Datblygu Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig:

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
APR 01	Fish Legal
APR 02	Ymateb Unigol
APR 03	Ymateb Unigol
APR 04	Ymateb Unigol
APR 05	Ymateb Unigol
APR 06	Ymateb Unigol
APR 07	Ymateb Unigol
APR 08	Ymateb Unigol
APR 09	Ymateb Unigol
APR 10	Ymateb Unigol
APR 11	Ymateb Unigol
APR 12	Cymdeithas Bysgota Pontardarwe ac Abertawe
APR 13	Cymdeithas Bysgota Gwent
APR 14	Dŵr Cymru
APR 15	Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin
APR 16	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru
APR 17	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
APR 18	Ymateb Unigol
APR 19	Undeb Amaethwyr Cymru

APR 20	NFU Cymru
APR 21	Ymateb Unigol
APR 22	Cymdeithas y Ffermwyr Tenant
APR 23	Ymateb Unigol
APR 24	Ymateb Unigol
APR 25	Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwylt, Cymru
APR 26	Ymateb Unigol
APR 27	Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru
APR 28	Ymateb Unigol
APR 29	Ymateb Unigol
APR 30	Gwarchod Eogiaid a Brithyll Cymru
APR 31	Cyswllt Amgylchedd Cymru
APR 32	Cyfoeth Naturiol Cymru - Tystiolaeth Atodol

Gwybodaeth Ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (Papur i Nodyn 2.5)	9 Rhagfyr 2021
Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (Papur i Nodyn 2.6)	9 Rhagfyr 2021
Llythyr oddi wrth NFU Cymru (Papur i Nodyn 2.7)	9 Rhagfyr 2021
Llythyr oddi wrth y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (Papur i Nodyn 2.3)	20 Ionawr 2022
Llythyr gan y Cadeirydd i NFU Cymru (Papur i Nodyn 2.8)	20 Ionawr 2022
Llythyr oddi wrth Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn Ymateb i Lythyr NFU Cymru (Papur i Nodyn 2.9)	20 Ionawr 2022
Tystiolaeth Atodol gan Cyswllt Amgylchedd Cymru (Papur i Nodyn 2.15)	20 Ionawr 2022
Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru - Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (Eitem 3)	11 Mai 2022